

Logo Llywodraeth Cymru



Llywodraeth Cymru Welsh Government

Mae delwedd o ddraig ac enw Llywodraeth Cymru ar ein logo sydd wedi'u gwahanu gan linell lorweddol. Mae'r tair elfen yn mynd law yn llaw â'i gilydd ac ni ddylid eu haddasu mewn unrhyw ffordd.

Mae'r elfennau wedi'u halinio yn y canol.

Logo dwyieithog yw hwn. Ni ddylid dileu'r Gymraeg na'r Saesneg, waeth beth fo iaith y deunyddiau y mae'n ymddangos arnynt.

Mae'r logo ar gael yn y fformatau canlynol:

JPG ar gyfer cyhoeddi bwrdd gwaith (MS Word, Powerpoint etc.)

EPS neu **TIFF** ar gyfer argraffu ansawdd uchel

GIF, JPG neu **PNG** ar gyfer y we

Dylid gwneud cais i ddefnyddio'r logo drwy e-bostio: brandingqueries@llyw.cymru

Ystyriaethau



Mae'r ffurfdeip yn rhan o'r brand ac ni ddylid ei ddileu.



Mae'n bwysig bod y ddwy iaith yn rhan o'n brand. Ni ddylid defnyddio'r naill na'r llall ar ei phen ei hun.

Welsh Government



Peidiwch â gwahanu'r ddraig oddi wrth y ffurfdeip.



Rhaid i'r ddraig wynebu tua'r chwith bob tro.

Llywodraeth Cymru
Welsh Government



Peidiwch ag ystumio'r logo na'i ailfeintio'n anghymesur.



Llywodraeth Cymru
Welsh Government



Peidiwch â lliwio'r logo. Dylid ond ei arddangos mewn du a gwyn.

Y logo ar ddeunyddiau sefydliadau eraill*

Caniatâd i ddefnyddio ein logos

Rhaid cael caniatâd ysgrifenedig Llywodraeth Cymru cyn bod sefydliad allanol yn gallu arddangos ein logo.

Gall unrhyw un o swyddogion Llywodraeth Cymru gymeradwyo cais.

Bydd yn rhaid bodloni'r meini prawf canlynol:

- Rhaid arddangos ein logo ar gyhoeddiadau neu ddeunyddiau lle mae Llywodraeth Cymru'n gyfrannwr sylweddol.
- Gellir defnyddio ein logo ar bob math o waith a gynhyrchir gan, neu ar ran Llywodraeth Cymru.

Pan fydd y logo'n cael ei arddangos wrth ochr logos eraill, rhaid iddo fod yr un mor amlwg â'r lleill.

Du a gwyn yw lliw ein logo. Ni chaniateir defnyddio unrhyw liw arall. Wrth roi ein logo ar gefndir lliw, sicrhewch fod digon o gyferbyniad.

Gofalwch fod digon o le gwag o amgylch ein logo. Dylai gofod fod yr un faint â'r uchder o'r llinell lorweddol i waelod y logo.

Y meintiau a argymhellir (lled y logo)**

A3	A4	A5	DL
55mm	40mm	35mm	30mm
Ar gyfer eitemau sy'n llai na DL, yr isafswm maint a ganiateir yw 22mm.			

* Sefydliadau y tu allan i Lywodraeth Cymru.


** Pan gaiff sawl logo eu harddangos wrth ochr ei gilydd, rydym yn deall na fydd yn bosibl bob tro i arddangos y logo yn y maint a argymhellir. Yn yr achosion hyn, sicrhewch fod y logo'r un mor amlwg â'r logos eraill a bod modd darllen y testun yn hawdd. Os yw eglurder yn broblem wrth ei argraffu mewn maint llai, dylech ddefnyddio neges gydnabod mewn testun plaen yn lle'r logo.



Logos cydnabyddiaeth

Dylid darparu’r fersiynau canlynol o logo Llywodraeth Cymru i drydydd parti er mwyn esbonio perthynas benodol rhwng Llywodraeth Cymru a sefydliad neu brosiect.

Mae’r logos ar gael ar ffurf portread neu dirlun.



Mae’r un egwyddorion o ran lliw a gosodiad yn berthnasol i’r fersiynau hyn â holl logos eraill Llywodraeth Cymru.

Y meintiau a argymhellir (lled y logo)*

	Portread		Tirlun	
	x	y	x	y
Isafswm maint	20mm	28mm	42mm	14mm
Nid oes uchafswm maint				

* Pan gaiff sawl logo eu harddangos wrth ochr ei gilydd, rydym yn deall na fydd yn bosibl bob tro i arddangos y logo yn y maint a argymhellir. Yn yr achosion hyn, sicrhewch fod y logo’r un mor amlwg â’r logos eraill a bod modd darllen y testun yn hawdd. Os yw eglurder yn broblem wrth ei argraffu mewn maint llai, dylech ddefnyddio neges gydnabod mewn testun plaen yn lle’r logo.

Dylid gwneud cais i ddefnyddio logos cydnabyddiaeth drwy e-bostio:
brandingqueries@llyw.cymru

Dewis logo cydnabyddiaeth


‘Noddwyd gan’

I’w ddefnyddio gan gyrff a noddir gan Lywodraeth Cymru ar eu holl ddeunyddiau. Rhaid i gyrff a noddir arddangos y logo hwn i ddangos eu bod yn bartneriaid a noddir gan Lywodraeth Cymru.



‘Ariennir gan’ neu ‘Ariennir yn rhannol gan’

I’w ddefnyddio gan sefydliadau sy’n derbyn cyllid gan Lywodraeth Cymru ar gyfer prosiectau fel digwyddiadau neu wyliau neu ar gyfer gwaith marchnata.



‘Un o fentrau Llywodraeth Cymru’

I’w ddefnyddio pan fo cynllun wedi’i ddatblygu gan Lywodraeth Cymru ond caiff ei ddarparu gan drydydd parti.



Mae fersiynau eraill ar gael, megis ‘Cefnogir gan’, ‘Gweithio ar ran’ a ‘Mewn Partneriaeth’.

Gellir darparu logo safonol Llywodraeth Cymru i drydydd parti. Fodd bynnag, dylid ychwanegu llinell ategol at ddeunyddiau hefyd i esbonio’r berthynas yn llawn.

Ceir canllawiau pellach drwy e-bostio:

brandingqueries@llyw.cymru